# Cofnodion Cyngor Tref Nefyn 09/02/16, Ysgol Morfa Nefyn

Presennol

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Arfon Hughes | Gruffydd Williams | John Thomas | Alan Griffiths | Sharon Williams |
| Guto Williams | Sian Hughes | Megan Williams | Alan Jones | Catrin Roberts |
| Glesni Jones(Clerc) | | | | |

1. *Ymddiheuriadau*

   Ashley Hughes   Huw Williams   Bleddyn Evans

2. *Datgan buddiant ariannol neu personol*

   Dim

3. *Cofnodion 12fed Ionawr 2016*

   Derbyniwyd y cofnodion yn gywir

4. *Traeth Nefyn ac Morfa Nefyn*

   *Diweddariad gan Cyng. Gruffydd Williams ac Arfon Hughes*

   Edrych ar y sefyllfa lle mae pobl angen gweld newidiadau yn digwydd. Mi fydd traeth Morfa a Nefyn yn cael yr un sylw. Yn y dyfodol mae rhaid bod yn llawer mwy llym efo perchnogion y ceir sy'n parcio ar y traeth h.y. pobl sy'n lansio eu cychod ac yn gadael eu cerbydau ar y traeth. Does dim arwyddion yn Nefyn parthed hyn o gwbl – datgan rheolau lansio, parcio, cwn a bwiau melyn. Awyrwyd fod 'speed limits' a bwiau yn cael eu gosod allan ymhellach yn y môr. Cael system o ddisgwyl ar dop y lon nes bydd y ceir ar gychod ar y traeth wedi gorffen lansio a dŵad yn nol i fyny. Hefyd angen lle i gadw trelars hefyd ar y ddau draeth.
   Mi fydd yn rhaid i'r warden fod llawer mwy llym wrth roi rheolau i bobl. Mi fysa'n syniad i'r warden gael rhif cyswllt y cynghorwyr, os oes problem yn codi ar y traeth gyda rheolau parcio. Mae taflenni wedi ei chyhoeddi i roi gwybodaeth am y ddau draeth. Mi fydd yn syniad rhannu'r rhain allan i ymwelwyr y traeth i gyd. Mi roedd Bryn Jones o Gyngor Gwynedd (morwrol) yn sôn am ryddhau aelodau o staff i allu dod draw i ddangos eu presenoldeb ar y traeth i sefydlu fod y rheolau yma yn bodoli.

Ynglŷn â safle'r cwt, mi fydd rhaid cael caniatâd gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i gael lles o bum mis ar y traeth i osod y cwt. Efallai yn syniad gofyn i Bryn Jones am roi arwyddion dealladwy ar y traeth i hysbysebu fod gelltydd wedi syrthio mewn ambell i le dros y gaeaf.

Siân Hughes wedi cysylltu gyda Bryn Jones i gael baner las ar y traeth yn y dyfodol. Mae costau ynglŷn â hyn, efallai byddai'r Cyngor yn cyfrannu hyn ar y gweill ar gyfer 2017.

5. *Cronfa Cymunedau Arfordirol*

Wedi cael cyfarfod efo myfyrwyr Coleg Llandrillo i gael gwirfoddolwyr i redeg y Siop Siarad bob hyn a hyn gan gynnwys gyda'r nosau.
Llwybr Frondirion a Tai Ffolt – Ceisio cael caniatâd i roi'r llwybr ochr arall i'r wal ar blot Sims. Mi fydd y llwybr yn barod erbyn canol Mawrth.
Categori 3 ydi Tai Ffolt. Dwr wedi codi'r tarmac ar y llwybr ac wedi difetha gwaith y cyngor a oedd wedi creu ffosydd i ddal y dŵr.
Wedi cael caniatâd David Harden ar y llwybr Pandy Saethon sy'n arwain at Bont Incman.

6. *Llwybr Arfordirol*

Mae cyfarfod ar droed ynglŷn â'r llwybr o Penbryn i Bwlch Bridin er mwyn gael agor y llwybr a rai hyd tuag at Cliffs. Mae Dafydd WYn i fod i gysylltu efo Siân Hughes yn fuan i drefnu amser cyfarfod.

7. *Tai Bach*

Mae Cyngor Gwynedd yn mynd mae'n debyg i roi cyfrifoldeb y Tai bach cyhoeddus i gynghorau plwyf a thref. 12 yn unig o'r rhif gwreiddiol o doiledau fydd y Cyngor yn bwriadu eu cadw. Os mai dyma fydd mai'n debyg y gallai'r Cyngor fynd am grantiau sydd ar gael i ariannu'r toiledau, fel Abersoch e.e. mi fydd raid i ni fod yn barod am hyn. Efo'r newid i ddigwydd ar gyfer 2017. Efallai cyflogi gofalwr i wneud y gwaith. Os daw wybodaeth i law yn y ddeufis nesa, mi fydd hyn yn amser i ni baratoi ar hynny.

8. *Sedd wag  Morfa Nefyn*

Rhybydd Cyngor Tref wedi mynd fyny.

9. *Golau Stryd Ystad Bryn, Morfa Nefyn*

Cyngor Gwynedd wedi ateb yn datgan oherwydd amgylchiadau/toriadau ariannol y cyngor nid oes gan yr adran gyllid i roi goleuadau newydd i mewn ym mhob man. Mi benderfynwyd yn y cyfarfod ni fydd y Cyngor Tref yn gallu cyfrannu tuag at y gost yma am y rhesymau efalla y bysa llawer mwy o geisiadau yn cael ei dderbyn yn y dyfodol- bydd yn amhosib ariannu nhw i gyd. A hefyd gan fwy na thebyg bydd toriadau Cyngor Gwynedd yn cael effaith ar Gynghorau Tref – efallai bydd rhaid ymgymryd ag cyfrifoldebau ychwanegol e.e. toiledau cyhoeddus a.y.b. Mi fydd hyn yn golygu bydd gwariant y Cyngor yn cynyddu.

10. *Cwrs – Un Llais Cymru*

Fe benderfynwyd bydd y clerc ar gadeirydd yn mynychu'r cwrs.

11. *Cae Chware Aml Ddefnydd*
    *Prisiau wedi ei dderbyn.*

12. **Ceisiadau Cynllunio**

    *C15/1310/42/RC – Diddymu cytundeb 106 (person lleol) Llaen Bach, Lon Las, Morfa Nefyn. – Dim gwrthwynebiad*

    *C16/0056/42/LL – Dymchwel mordurdy to fflat ochr presennol a chodi modurdy to brig yn ei le, Rhandir Villa, Lon Uchaf, Morfa Nefyn – Dim gwrthwynebiad.*

    *C16/0034/42/LL – Adeiladau estyniad unllawr a porth i't ty, trosi modurdy persennol yn uned wyliau hunangynhaliol ac adeiladu stablau, Fron Hyfryd, Mynydd Nefyn – Gwrthwynebiad*

    *C15/1358/42/LL – Gwelliannau i safle carafannau teithiol sy' cynnwys cynnyddu nifer o 36 i 60 uned, creu 61 llawr caled, ail leoli man chware, dymchwel bloc cyfleusterau a chodi adeilad newydd i gynnwys siop, creu ffordd fewnol a safle parcio, lleoli carafan rheolwr a gwaith tirluni, Fferm Porthdinllaen, Morfa Nefyn.*

    *C15/0583/42/LL – Adeiladu storfa ardd (cynllyn diwygiedig i'r hyn a ganiatawyd) Bodlondeb, Lon Bodlondeb, Morfa Nefyn – Dim gwrthwynebiad.*

### Gohebiaeth

**13.0** Un Llais Cymru - Aelodaeth 2016/17

**14.0** Maniffesto: Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd

**15.0** Asiantaeth Ynni – Resource efficient Wales

**16.0** Ymgynghoriad ACA a AGA Morwrol

**17.0** Ty Moelwyn - Cyngor Tref Porthmadog

**18.0** Penodiadau Cyhoeddus – Penodi Cadeirydd i Chwaraeon Cymru

**19.0** Cynigion yn ymwneud a Datganiad Cyfranogiad y Cyhoedd ar gyfer fframwaith Datblygu Cenedlaethol

**20.0** Natural Resources Bulletin – Issue 3

**21.0** Betsi Cadwaladr – Adroddiad

### Ceisiadau am gyfraniad

Dim

*Llythyr o ddiolch gan Banc Bwyd Pwllheli am y cyfraniad.*

Taliadau – Caniatad wedi ei roi i'r Clerc dalu'r isod.

- Cyflog S Jones £1667.17 a PAYE
- Cyflog y clerc a PAYE £520.00, £130.00
- David Parry £750.00 – Mynwent Nefyn,
- Dunn & Ellis - £ 54.00 – Gwaith PAYE
- Ashley Hughes - £68.30 – Offer swyddfa (inc, stamps)

CYFARFOD NESA 8fed o Fawrth 2016 – Ganolfan Edern 7 y.h